Manyleb Person Rheolwr Gwasanaethau Cynghori

Beth ydym yn chwilio amdano
Eich sgiliau, eich gwybodaeth a'ch profiad

Meini prawf hanfodol
Byddwch yn rheolwr profiadol sy'n gallu dangos y sgiliau a'r rhinweddau canlynol:

- **Arweinyddiaeth:** Rydych yn arwain gydag uniondeb, parch a chynhwysiant, gan ysbrydoli timau i gyflawni gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n bodloni gofynion perfformiad.
- **Atebolrwydd:** Rydych yn cymryd cyfrifoldeb am ganlyniadau personol, rhai'r tîm a rhai'r adran, gan ddangos tryloywder ac ymdeimlad o berchnogaeth wrth wneud penderfyniadau.
- **Addasrwydd:** Rydych yn gweithio'n effeithiol mewn amgylchedd sy'n newid, gan aros yn hyblyg ac yn ymatebol i flaenoriaethau, amgylchiadau ac anghenion rhanddeiliaid sy'n newid.
- **Cyfathrebu:** Rydych yn cyfathrebu'n glir ac yn effeithiol ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd, gan gynnwys rhanddeiliaid, uwch-reolwyr, ymddiriedolwyr a phartneriaid allanol.
- **Cadernid:** Rydych yn cynnal agwedd adeiladol, broffesiynol ac sy'n canolbwyntio ar ddatrysiadau dan bwysau ac yn ystod cyfnodau o newid.
- **Gwneud penderfyniadau:** Rydych chi'n meddwl yn strategol ac yn feirniadol, gan arfer barn gadarn a defnyddio tystiolaeth berthnasol i wneud penderfyniadau effeithiol.
- **Rheoli amser:** Rydych chi'n cynllunio ac yn rheoli eich amser yn effeithlon ac yn blaenoriaethu'n effeithiol i gyrraedd terfynau amser.
- **Rheoli perfformiad:** Profiad o reoli perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol

Meini Prawf Dymunol
- Profiad o arwain timau sy'n darparu gwasanaethau cynghori
- Profiad o weithio gyda chyllidwyr, ymddiriedolwyr neu gyrff llywodraethu uwch